

# Sut fedrwch chi ddiogelu plant rhag secstio?

Canllaw gan *Virtual College*

# Cyflwyniad

---

Mae mwy a mwy o blant a phobl ifainc yn eu harddegau'n cymryd rhan mewn secstio, neu'n cael eu heffeithio ganddo. Gyda mwy a mwy o bobl ifainc yn cael mynediad at ffonau a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol, mae'n dod yn haws iddynt anfon a derbyn negeseuon a delweddau cignoeth.


Bu cynnydd yn nifer yr achosion o secstio ymysg pobl ifainc sy'n cael eu hadrodd yn y blynyddoedd diwethaf, gydag ysgolion ac awdurdodau lleol yn cymryd camau i geisio mynd i'r afael â'r mater. Fodd bynnag, mae hi hefyd yn bwysig mynd i'r afael â'r mater o secstio gyda'ch plant adref.

## Beth yw secstio?

---

Mae secstio'n golygu anfon negeseuon cignoeth a/neu ddelweddau awgrymog, megis lluniau noeth. Er bod yr enw'n awgrymu bod hyn ond yn cael ei wneud drwy negeseuon testun, gellir anfon negeseuon o'r fath drwy unrhyw wasanaeth negeseua, gan gynnwys e-byst a chyfryngau cymdeithasol.

Mae hyn hefyd yn golygu y gellir anfon a derbyn negeseuon rhywiol drwy nifer o ddyfeisiau electronig, megis ffonau clyfar, cyfrifiaduron a llechi.



## Mae secstio'n anghyfreithlon ymysg plant

---

Os yw plentyn o dan 18 oed, mae'n anghyfreithlon iddo/iddi dynnu llun o'i hun neu ffrind, yn ogystal â'u rhannu. Er mai 16 yw'r oed cydsyniad, mae'r Ddeddf Amddiffyn Plant yn golygu ei bod hi'n anghyfreithlon i blentyn rannu delwedd rhywiol, hyd yn oed â rhywun sydd hefyd o dan 18 oed.

Mae delweddau sy'n cael eu cwmpasu gan y ddeddf yn cynnwys lluniau noeth, lluniau bronnoeth o ferched, unrhyw weithredoedd rhywiol, ac unrhyw ddelweddau rhywiol mewn dillad isaf, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. Gall yr heddlu gofnodi'r mater fel trosedd os canfyddir bod plentyn o dan 18 oed yn meddu ar unrhyw un o'r rhain, wedi bod yn eu hanfon, neu'n tynnu ffotograffau o'r fath.

Fodd bynnag, ers dechrau 2016, gall yr heddlu gofnodi'r trosedd heb gymryd unrhyw gamau gweithredu pellach os nad yw o fudd i'r cyhoedd. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n annhebygol y bydd y mater yn ymddangos ar gofnodion yn y dyfodol. Mae'n fater i'w benderfynu gan yr heddlu, a fydd yn barnu fesul achos.

## Sut mae plant yn cael eu hamddiffyn mewn ysgolion?

---

Mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer ymdrin â secstio mewn ysgolion eleni, sy'n golygu bod proses mewn grym ar gyfer ymdrin ag unrhyw achosion. Mae'r canllawiau 'Cadw Plant yn Ddiogel Mewn Addysg 2016' yn golygu bod yn rhaid i bob ysgol adrodd am unrhyw achos o secstio i aelod staff penodol, a fydd yn arwain ymchwiliad.

Bydd yr ymchwiliad hwn yn cynnwys y plant sydd wedi'u dal yn secstio, yn ogystal â'u rhieni. Gall yr ysgol eu cosbi, ond os ystyrir bod y plentyn cysylltiedig mewn perygl o niwed, neu wedi dioddef niwed, gellir cyfeirio'r achos at yr heddlu neu'r gwasanaethau plant.

Er mwyn mynd i'r afael â secstio, mae gan ysgolion bŵer hefyd i chwilio am ddyfeisiau electronig, megis ffonau clyfar, yn ogystal â gwirio pa ddata sydd ar y dyfeisiau hyn. Yn ogystal, cânt ddileu unrhyw ddelweddau cignoeth maen nhw'n dod ar eu traws.



## Beth all rhieni wneud i ddiogelu plant?

Un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ddiogelu'ch plant yn erbyn secstio yw siarad â nhw am y mater. Gall sicrhau eu bod nhw'n deall beth yw secstio, pa mor beryglus ydyw, a chanlyniadau secstio, eu galluogi i wneud y dewisiadau cywir.

Bydd hyn hefyd yn sicrhau eu bod nhw'n gwybod beth i'w wneud os ydynt yn derbyn unrhyw ddelweddau neu negeseuon digroeso, sy'n medru achosi gofid, yn arbennig i blant iau. Os ydyn nhw'n gwybod bod ganddyn nhw'ch cefnogaeth chi, maen nhw'n fwy tebygol o ddod atoch chi os oes ganddynt unrhyw broblemau neu gwestiynau.

Hefyd, mae'n bwysig gosod rheolau ar eu cyfer mewn perthynas â'u defnydd o ddyfeisiau electronig a chyfryngau cymdeithasol. Sicrhewch eu bod nhw'n gwybod beth maen nhw'n medru gwneud, a beth na chânt wneud, â'u dyfeisiau, a beth na ddylent bostio ar-lein, megis eu cyfeiriad.

Efallai y byddwch chi eisiau gosod rhaglenni ac apiau rheolaeth gan rieni ar eu dyfeisiau hefyd, a fydd yn atal gweithgareddau penodol a/neu'n eich galluogi i fonitro eu hymddygiad. Gall darllen eu negeseuon a gwirio'u gweithgarwch ar-lein eich helpu i ddiogelu plant hefyd, yn arbennig os ydynt yn gymharol ifainc.

Gall fod yn syniad da hefyd i wirio pa reoliadau rheolaeth gan rieni mae'ch darparwr band llydan yn cynnig, oherwydd fe allant eich helpu i ddiogelu'ch plant ymhellach.

Er y gall fod yn demtasiwn gwahardd cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn llwyr, gall hyn olygu y byddant yn eu sefydlu heb yn wybod i chi, felly ni fyddant yn deall sut i'w cadw'n ddiogel na sut i'w defnyddio'n gywir. Mae'n llawer gwell sefydlu eu proffiliau gyda nhw pan rydych chi'n credu eu bod nhw'n barod, trafod yr holl nodweddion gyda nhw, a sicrhau bod gennych fynediad iddynt.

Os ydych chi'n dod i wybod bod eich plentyn wedi bod yn secstio, mae'n bosibl cael eu delweddau wedi'u dileu drwy gysylltu â'r Sefydliad Gwylio'r Rhyngwrwd, a fydd yn chwilio am unrhyw luniau neu fideos cignoeth o'ch plentyn er mwyn eu diogelu rhag y goblygiadau posibl.



### Ffynonellau

[www.iwf.org.uk/](http://www.iwf.org.uk/)

[www.childlawadvice.org.uk/information-pages/sexting/](http://www.childlawadvice.org.uk/information-pages/sexting/)

[www.kscb.org.uk/\\_\\_data/assets/pdf\\_file/0006/60909/Sexting-KSCB-version-5-final.pdf](http://www.kscb.org.uk/__data/assets/pdf_file/0006/60909/Sexting-KSCB-version-5-final.pdf)

[www.growingwireless.com/be-aware/sexting/how-to-respond](http://www.growingwireless.com/be-aware/sexting/how-to-respond)

[www.parentsprotect.co.uk/files/Sexting%20in%20Schools%20eBooklet%20FINAL%2030APR13.pdf](http://www.parentsprotect.co.uk/files/Sexting%20in%20Schools%20eBooklet%20FINAL%2030APR13.pdf)

[www.safeguardingchildrenea.co.uk](http://www.safeguardingchildrenea.co.uk)

[replies@virtual-college.co.uk](mailto:replies@virtual-college.co.uk) - 01943 885085

**Virtual College**

Marsel House, Stephenson's Way, Ilkley, West Yorkshire, LS29 8DD, England

Mae *Virtual College* yn un o ddarparwyr datrysiadau dysgu ar-lein mwyaf blaenllaw y DU, gyda dros **2.5 miliwn o ddysgwyr ar-lein**. Gyda'n gilydd, rydyn ni'n llywio'n cymuned ar-lein drwy greu adnoddau, gwasanaethau a chynnyrch effeithiol sy'n bodloni anghenion sefydliadau a dysgwyr unigol.

